Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd: Arweinydd Datblygu'r Cwricwlwm

Adran: Y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd

Lleoliad: Campws Llandaf

Gradd: 7A/B

Cyflog: £40,322 - £45,361 y flwyddyn

Oriau: 37 awr yr wythnos

Daliadaeth: Parhaol

Crynodeb o'r Rôl:

Fel Arweinydd Datblygu'r Cwricwlwm, byddwch yn chwarae rhan annatod wrth sicrhau bod dull y Brifysgol o ddylunio a datblygu rhaglenni yn gyfredol ac yn cael ei lywio gan arfer arloesol y sector. Byddwch yn cefnogi'r Uwch Dîm Rheoli i sefydlu model cynnydd cynaliadwy sy'n cefnogi ac yn grymuso Ysgolion i ddylunio a gweithredu rhaglenni astudio arloesol, ystyrlon a gafaelgar.

Gan ddefnyddio'ch gwybodaeth sefydledig a'ch arbenigedd proffesiynol, byddwch yn cefnogi rhannu arfer da gydag Ysgolion ac yn darparu cyngor ac arweiniad ar ddatblygu cwricwlwm ac asesu. Byddwch yn gwneud cyfraniad sylweddol at gynnig dysgu proffesiynol y GGA gan hwyluso rhannu arfer da ac arloesi wrth ddatblygu cwricwlwm o fewn ac ar draws disgyblaethau.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

1) Gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn Ysgolion a'r GGA i sicrhau bod y Brifysgol yn ymdrin a datblygu a cymeradwyo'r cwricwlwm mewn modd sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Cynllun Strategol ac yn datblygu rhaglenni astudio arloesol a gafaelgar.

2) Gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn Ysgolion a'r GGA i sefydlu model cynaliadwy o ddarparu cyngor ac arweiniad datblygu cwricwlwm academaidd i gefnogi Strategaeth y Brifysgol, a'r rhaglen Trawsnewid Cwricwlwm gyfredol.

3) Cyfrannu at y rhaglen Dysgu Proffesiynol a ddarperir gan y GGA - gan hwyluso rhannu arfer da ac arloesi wrth ddatblygu cwricwlwm o fewn ac ar draws disgyblaethau gan gynnwys trefnu gweithdai a digwyddiadau datblygu staff ar gyfer staff mewnol ac allanol.

4) Gweithio gyda cydweithwyr yn y GGA i sicrhau bod cefnogaeth, arweiniad a chyngor o ansawdd uchel yn cael eu darparu i Ysgolion a'u partneriaid ar bob mater sy'n ymwneud â datblygu, cymeradwyo ac adolygu'r cwricwlwm.

5) Cymryd cyfrifoldeb am gefnogi datblygiad rhaglenni academaidd y Brifysgol o'r syniad cychwynnol hyd at gymeradwyo ac adolygu.

6) Cefnogi rhaglen Trawsnewid Cwricwlwm y Brifysgol trwy fyfyrio'n barhaus ar arfer gorau wrth ddylunio a chymeradwyo rhaglenni.

7) Bod yn rhagweithiol wrth ddilyn datblygiadau sector ac ymchwil gyfredol sy'n ymwneud â datblygu'r cwricwlwm. Defnyddio'r wybodaeth yma i lywio gweithdrefnau a phrosesau ym Met Caerdydd a bod yn barod i rannu arfer gyda grwpiau allanol.

8) Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill yn unol â chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Gwella Dysgu sy'n gymesur â gradd y swydd.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo gyda pherfformiad eich cytundeb. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Derbynnir y bydd gan staff unigol sylfaen sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y cawsant eu penodi iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd yr holl staff yn ymddwyn mewn modd proffesiynol a chwrtais bob amser ac yn rhoi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

MANYLEB PERSON

Rôl: Arweinydd Datblygu'r Cwricwlwm

Uned/Ysgol: Y Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd

* Allwedd
Ff - Ffurflen gais
C - Cyfweliad
P/Cyfl - Prawf/Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	EU HASESU GAN		
		Ff*	C *	P/Cyfl*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	• Gradd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol. • Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus • Cymhwyster neu ddyfarniad ôl-raddedig perthnasol	✓ ✓ ✓		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	• Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu'r gallu i fodloni meini prawf ar gyfer Cymrodoriaeth a pharodrwydd i weithio tuag at Cymorodiaeth.	✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	• Gwybodaeth am arfer sy'n arwain y sector wrth ddylunio a datblygu'r cwricwlwm.	✓	✓	✓
Gwybodaeth (Dymunol)	• Gwybodaeth am ganlyniadau gweithgaredd ysgolheigaidd ymchwil perthnasol a chyfredol ym maes datblygu'r cwricwlwm.	✓	✓	✓

Sgiliau a Galluoedd (Hanfodol)	• Profiad o ddysgu mewn amgylchedd AU	✓	✓	✓
	• Profiad o ddylunio rhaglenni academaidd	✓	✓	✓
	• Profiad byw o ddylunio cwricwlwm	✓	✓	✓
	• Sgiliau cynllunio, rheoli amser a threfnu rhagorol	✓		
	• Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol.	✓	✓	✓
	• Y gallu i arwain ac ysgogi tîm	✓	✓	
	• Y gallu i ddarparu atebion creadigol ac effeithiol i broblemau cymhleth.	✓	✓	
	• Y gallu i wella safonau perfformiad mewn perthynas â datblygu'r cwricwlwm	✓	✓	
Profiad â thâl / di-dâl (Hanfodol)	• Profiad o ddarparu datblygiad / hyfforddiant staff o ansawdd uchel	✓	✓	✓
	• Profiad o goladu a dadansoddi data ac adrodd ar ganlyniadau.	✓		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	• Parodrwydd i gael datblygiad a hyfforddiant pellach yn ôl yr angen	✓		
	• Parodrwydd i deithio dramor	✓		
	• Dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau	✓	✓	